Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2 a Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg

Mai 2025

# 1. Cefndir

**1.** Cyflwynwyd y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg[1] (y Bil) yn Nhŷ'r Arglwyddi a chafodd ei Ddarlleniad Cyntaf ar 4 Medi 2024. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes a Masnach.

**2.** Mae enw hir y Bil yn datgan mai dyma ddiben y Bil:

> *"Make provision about the marketing or use of products in the United Kingdom; about units of measurement and the quantities in which goods are marketed in the United Kingdom; and for connected purposes."*[2]

**3.** Cwblhaodd y Bil ei daith drwy Dŷ'r Arglwyddi ar 12 Mawrth 2025. Cafodd ei Ddarlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin y diwrnod canlynol[3], a chafodd ei Ail Ddarlleniad ar 1 Ebrill 2025. Aeth i gyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar 13 Mai 2025, ac ar yr adeg y cytunwyd ar yr adroddiad hwn, roedd dyddiad ar gyfer cyfnod Adroddiad Tŷ'r Cyffredin i'w gyhoeddi.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**4.** Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fo Bil y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

**5.** Ar 20 Medi 2024, gosododd Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio (yr Ysgrifennydd Cabinet) femorandwm cydsyniad deddfwriaethol (y Memorandwm) mewn cysylltiad â'r Bil gerbron y Senedd.[4] Yn y Memorandwm, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod Llywodraeth Cymru yn gefnogol o'r Bil "o ran ei rôl yn hwyluso gweithrediad esmwyth marchnad fewnol y DU", fodd bynnag:

> *"… mae angen o ymgysylltu ymhellach â Llywodraeth y DU ar y pwerau galluogi yng nghymalau 1(1)(a), 1(1)(b) ac 1(2), a rôl Gweinidogion Cymru a'r Senedd yn y maes hwn. Byddaf yn darparu diweddariadau pellach i'r Senedd ynghylch safbwynt*

[1] Y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, fel y'i cyflwynwyd (Saesneg yn unig)
[2] Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, fel y'i cyflwynwyd
[3] Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi (Saesneg yn unig)
[4] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, 20 Medi 2024

*Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil hwn ar ôl ymgysylltu pellach."*[5]

**6.** Gosodwyd ein hadroddiad ar y Memorandwm ym mis Tachwedd 2024[6], a chael ymateb gan yr Ysgrifennydd Cabinet ar 13 Ionawr 2025.[7]

**7.** Yn ein hadroddiad, argymhellwyd y dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ddarparu diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor a'r Senedd ar safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil.[8] Mewn ymateb, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad oedd "diweddariadau sylweddol", er bod trafodaethau cadarnhaol ar lefel swyddogion yn cael eu cynnal â Llywodraeth y DU. Dywedodd hefyd fod Llywodraeth Cymru yn gobeithio cael rhagor o wybodaeth am safbwynt Llywodraeth y DU yn gynnar yn 2025, ac y bydd "diweddariad yn cael ei roi i'r pwyllgor yn fuan wedi hynny, a fydd yn nodi'r camau nesaf mewn perthynas ag ymgysylltu pellach."[9]

**8.** Yn ein hadroddiad, mynegwyd pryder hefyd am y pwerau eang yn y Bil, a gallu Llywodraeth y DU i'w harfer mewn meysydd datganoledig heb orfod cael cydsyniad Gweinidogion Cymru. Yn hyn o beth, argymhellwyd y dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ddatgan y canlynol:

- a yw Llywodraeth Cymru yn credu y gellid defnyddio Bil a gyflwynwyd yn y Senedd i ddiwygio'r Bil – os caiff ei ddeddfu – i'r graddau y mae'n berthnasol i feysydd datganoledig; ac

- a yw Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai dilyn dull o'r fath yn hyfyw, pe bai angen, i ddatrys ei phryderon mewn perthynas â'r Bil.[10]

**9.** Mewn ymateb i'r argymhelliad hwn, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

*"Byddai'r dull amlinellol yn gofyn am asesiad llawn o gymhwysedd deddfwriaethol ond pe byddai darpariaeth o'r*

[5] Y Memorandwm, paragraff 36

[6] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, Tachwedd 2024

[7] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 13 Ionawr 2025

[8] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, Tachwedd 2024, Argymhelliad 1

[9] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 13 Ionawr 2025, ymatebion i argymhellion 1 a 4

[10] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, Tachwedd 2024, Argymhelliad 2

> *fath o fewn cymhwysedd y Senedd, yna gallai ddiwygio deddfwriaeth Senedd y DU.*
>
> *Rydym yn hyderus y bydd Llywodraeth y DU yn cyrraedd canlyniadau cadarnhaol ac felly nid ydym yn credu y bydd angen dull o'r fath."*[11]

**10.** Argymhellwyd hefyd y dylid diwygio'r Bil er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i arfer y pwerau dirprwyedig yn y Bil mewn meysydd datganoledig, ac y dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi'r ffyrdd gwahanol roedd Llywodraeth Cymru yn ceisio diwygio'r Bil i sicrhau rôl i Weinidogion Cymru a'r Senedd.[12] Wrth dderbyn yr argymhellion hyn, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod Llywodraeth Cymru yn "parhau i drafod dyraniad pwerau dirprwyedig gyda Llywodraeth y DU, gyda'r bwriad o sicrhau bod datganoli yn cael ei adlewyrchu'n llawn", a'i bod hefyd mewn cysylltiad â chymheiriaid yn yr Alban a Gogledd Iwerddon "i ddeall eu persbectif ar y Bil a'r opsiynau deddfwriaethol posibl a allai fynd i'r afael â phryderon y cenhedloedd datganoledig."[13]

**11.** Yn olaf, argymhellwyd y dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi asesiad Llywodraeth Cymru o ryngweithiad y Bil â *Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020* (Deddf Marchnad Fewnol y DU), ac â fframweithiau polisi cyffredin y DU.[14] Mewn ymateb i'r argymhellion hyn, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet mai asesiad Llywodraeth Cymru oedd y byddai unrhyw reoliadau sy'n cael eu cyflwyno gan ddefnyddio'r pwerau yn y Bil yn cyd-fynd â'r egwyddorion a amlinellir yn Neddf Marchnad Fewnol y DU, ac y byddai'r Ddeddf yn gymwys pe bai achosion o wahaniaeth rheoleiddiol ar draws y DU mewn meysydd sy'n dod o dan y Bil. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol hefyd:

> *"Bydd y rhyngweithio â fframweithiau cyffredin yn dibynnu ar ganlyniad trafodaethau ynghylch pwerau dirprwyedig. Bydd y rhyngweithio â fframweithiau cyffredin unigol hefyd yn dibynnu*

[11] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 13 Ionawr 2025, adran 2
[12] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, Tachwedd 2024, Argymhellion 3 a 4
[13] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 13 Ionawr 2025, adran 2
[14] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, Tachwedd 2024, Argymhellion 5 a 6

*ar y modd yr honnir bod y pwerau dirprwyedig yn cael eu harfer."*[15]

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru

**12.** Ar 24 Mawrth 2025, gosododd yr Ysgrifennydd Cabinet femorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 2) mewn cysylltiad â "nifer o welliannau technegol a gwelliannau o sylwedd" a gyflwynwyd i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi rhwng 17 Chwefror a 5 Mawrth 2025.[16]

**13.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 2 erbyn 16 Mai 2025.[17] Estynnwyd y terfyn amser adrodd hwn yn ddiweddarach i 19 Mai 2025[18], ac yn ddiweddarach cafodd ei estyn i 2 Mehefin 2025.

### Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

**14.** Yn ôl asesiad Llywodraeth Cymru, fel y nodwyd ym mharagraffau 12 i 30 o Femorandwm Rhif 2, mae angen cydsyniad ar gyfer gwelliannau a wnaed i'r cymalau a ganlyn a'r Atodlen i'r Bil, a gwelliant i fewnosod cymal newydd:

- Cymal 1 – Rheoliadau cynnyrch;
- Cymal 2 – Gofynion cynnyrch;
- Cymal newydd 9 – Cymhwyso i'r ddarpariaeth cynnyrch a mesureg bresennol;
- Cymal 10 – Dehongli; ac
- Yr Atodlen – Cynhyrchion eithriedig.

---

[15] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 13 Ionawr 2025, adran 2

[16] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2): Y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, 24 Mawrth 2025

[17] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, Mawrth 2025

[18] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, Mai 2025

## Barn Llywodraeth y DU am yr angen am gydsyniad

**15.** Yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil, mae Llywodraeth y DU yn pennu bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y Bil, ac yn cytuno bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 1 i 4 (yn rhannol) a 7 i 11 (yn rhannol).[19] Yn hyn o beth, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan y canlynol:

> *"… nid yw barn Llywodraeth y DU wedi newid mewn perthynas â'r angen am gydsyniad ar gyfer cymalau 1, 2, 10 a'r Atodlen. O ran y cymal newydd, mae Llywodraeth y DU yn cydnabod bod angen cydsyniad y Senedd, ac rydym yn cytuno â'r asesiad hwn."*[20]

## Goblygiadau ariannol

**16.** Ym mharagraff 33 o Femorandwm Rhif 2, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn nodi na chafodd unrhyw oblygiadau ariannol eu nodi "hyd yma", ond y "bydd cyngor pellach yn cael ei gyflwyno os bydd y sefyllfa hon yn newid."

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

**17.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn nodi'r rhesymau dros wneud y darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil:

> *"Mae Llywodraeth y DU wedi tynnu sylw at y ffaith mai prif fwriad y pwerau yn y Bil yw moderneiddio a gwella deddfwriaeth bresennol, yn hytrach nag unrhyw ddirymu a disodli ar raddfa eang. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod y cymal newydd a amlinellir uchod yn welliant technegol ond angenrheidiol er mwyn rhoi effaith i'r polisi o ddefnyddio pwerau'r Bil i ddiweddaru'r corff presennol o gyfraith heb ei ddirymu ac yna ei ddyblygu'n ddiangen."*[21]

**18.** Daw'r Ysgrifennydd Cabinet i'r casgliad a ganlyn ym mharagraff 34 o Femorandwm Rhif 2:

> *"Mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol o'r gwelliannau, i'r graddau y bo'n cefnogi amcan Llywodraeth y DU i ddatblygu cyfundrefn ddiogelwch cynnyrch ledled y DU a fydd yn gallu*

---

[19] Nodiadau Esboniadol i'r Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, fel y'i cyflwynwyd, Atodiad A
[20] Memorandwm Rhif 2, paragraff 31
[21] Memorandwm Rhif 2, paragraff 32

*cael ei gweld fel rhan allweddol o uchelgais ehangach i sefydlu a chynnal marchnad fewnol effeithiol y DU. Fodd bynnag, mae fy swyddogion a minnau yn parhau i ymgysylltu ymhellach â Llywodraeth y DU ar y pwerau galluogi yng nghymalau 1(1)(a), 1(1)(b) ac 1(2), a'r effaith ar ddatganoli. Byddaf yn darparu diweddariadau pellach i'r Senedd ynghylch safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil hwn ar ôl ymgysylltu pellach."*

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru

**19.** Ar 12 Mai 2025, gosododd yr Ysgrifennydd Cabinet femorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol arall (Memorandwm Rhif 3) mewn cysylltiad â gwelliant a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 7 Mai 2025 i'w ystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin.[22]

**20.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 3 erbyn 19 Mai 2025.[23] Estynnwyd y terfyn amser adrodd yn ddiweddarach i 2 Mehefin 2025.

### Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

**21.** Asesiad Llywodraeth Cymru, fel y nodwyd ym mharagraffau 12 i 15 o Femorandwm Rhif 3, yw bod angen cydsyniad ar gyfer gwelliant OPC79[24] (a gyflwynwyd fel gwelliant Gov NC1[25]).

**22.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn darparu manylion am yr is-adrannau a ganlyn o'r cymal newydd a fewnosodwyd gan y gwelliant:

- mae is-adran (2) yn cyfyngu'r pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol, o dan gymal 1, i wneud rheoliadau drwy bennu mai dim ond gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru y caniateir gwneud rheoliadau sy'n cynnwys darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig Cymru, oni bai

[22] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3): Y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, 12 Mai 2025
[23] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, Mai 2025
[24] Fel y nodwyd yn y Memorandwm, defnyddir "OPC" fel rhif cyfeirnod a roddwyd i'r gwelliannau cyn eu cyhoeddi'n ffurfiol.
[25] Senedd y DU, Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, Gwelliant NC1 (Saesneg yn unig)

bod y ddarpariaeth ddim ond yn ddeilliadol i, neu'n ganlyniadol ar ddarpariaeth y tu allan i gymhwysedd datganoledig Cymru;

- mae is-adran (5)(b) yn darparu bod darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig Cymru pe byddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru pe bai wedi'i chynnwys mewn Deddf gan y Senedd (gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth y gellid ei gwneud gyda chydsyniad Gweinidog y Goron yn unig);
- mae is-adran (6) yn gwneud diwygiadau i baragraff (9) o Atodlen 7B i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* i ddatgymhwyso cyfyngiad cydsyniad Gweinidog y Goron ym mharagraff (8).[26]

**23.** Derbyniwyd gwelliant Gov NC1 ar 15 Mai 2025[27] ac mae'n ymddangos fel cymal 10 o'r fersiwn o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus[28].

## Barn Llywodraeth y DU am yr angen am gydsyniad

**24.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan bod Llywodraeth y DU yn cydnabod bod angen cydsyniad y Senedd ar y gwelliant, a'i bod yn cytuno â'r asesiad hwn.[29]

## Goblygiadau ariannol

**25.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn nodi na chafodd unrhyw oblygiadau ariannol eu nodi "yn y cam hwn", ond y "bydd cyngor pellach yn cael ei gyflwyno os bydd y sefyllfa hon yn newid."[30]

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

**26.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn cydnabod nad yw'r gwelliant yn darparu pwerau cyfatebol i Weinidogion Cymru mewn meysydd datganoledig.[31] Ymhellach, mae'n datgan y canlynol:

---

[26] Memorandwm Rhif 3, paragraffau 13 i 15
[27] Senedd y DU, Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin (Saesneg yn unig)
[28] Senedd y DU, Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus
[29] Memorandwm Rhif 3, paragraff 16
[30] Memorandwm Rhif 3, paragraff 20
[31] Memorandwm Rhif 3, paragraff 17

> *"Rwyf wedi tynnu sylw Llywodraeth y DU at fy mhryderon gyda'r dull hwn, a phwysigrwydd parchu ffiniau datganoli a rôl y Senedd.*
>
> *Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau ei bod yn cydnabod pwysigrwydd parchu datganoli, ac wedi pwysleisio bod y mecanwaith cydsynio wedi'i gynllunio i sicrhau bod buddiannau datganoledig yn cael eu diogelu, gan ddarparu'r eglurder a'r cydlyniant angenrheidiol i fusnesau a defnyddwyr ym mhob rhan o'r DU.*
>
> *Bydd y cymal newydd yn gwahardd yr Ysgrifennydd Gwladol rhag gwneud rheoliadau sy'n cynnwys darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd oni bai bod Gweinidogion Cymru yn cydsynio (oni bai ei fod yn ddeilliadol neu'n ganlyniadol). Ymhellach, bydd y cyfyngiad a fyddai fel arall yn ei gwneud yn ofynnol i gael cydsyniad Gweinidog y Goron i'w hepgor, hefyd yn cael ei ddatgymhwyso drwy restru'r Ddeddf hon fel eithriad i hynny, yn rhinwedd y diwygiad i baragraff 9 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae hyn yn rhoi cyfyngiadau pwysig ar bŵer a fyddai fel arall yn eang."*[32]

**27.** Er y byddai "wedi hoffi i Lywodraeth y DU fynd ymhellach", mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn croesawu'r gwelliant, ac yn datgan ei fod yn "dangos consesiwn ar ran Llywodraeth y DU", ac y "bydd yn sicrhau bod buddiannau datganoledig yn cael eu diogelu wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth o dan gymalau 1(1)(a), 1(1)(b) a 1(2)."[33]

**28.** Felly, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn argymell bod y Senedd yn cefnogi'r cynigion ac yn rhoi ei chydsyniad iddynt.[34]

# 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**29.** Ystyriwyd Memorandwm Rhif 2 ar 28 Ebrill 2025[35] a 12 Mai 2025[36].

---

[32] Memorandwm Rhif 3, paragraffau 17 i 19
[33] Memorandwm Rhif 3, paragraff 22
[34] Memorandwm Rhif 3, paragraff 23
[35] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 28 Ebrill 2025, Cofnodion
[36] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mai 2025, Cofnodion

**30.** Ar 19 Mai 2025, ystyriwyd Memorandwm Rhif 3 ac ein hadroddiad, a gwnaethom benderfynu cytuno ar ein hadroddiad y tu allan i'r cyfarfod.[37]

## Ein barn ni

### Darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

**31.** Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru o'r gwelliannau sy'n gofyn cydsyniad y Senedd, o ystyried y gellid defnyddio pwerau'r Bil i wneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig megis iechyd, datblygu economaidd, diogelu'r amgylchedd, deunydd pacio bwyd ac anifeiliaid.

**Casgliad 1.** Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru, fel y nodwyd ym Memoranda Rhif 2 a Rhif 3, o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer yn unol â Rheol Sefydlog 29.

**32.** At hynny, nodwn fod Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau a nodir ym Memoranda Rhif 2 a Rhif 3.

### Safbwynt Llywodraeth Cymru

**33.** Er nad yw Memorandwm Rhif 2 yn cynnwys argymhelliad ynghylch a ddylai'r Senedd gydsynio i'r Bil, nodwn fod yr Ysgrifennydd Cabinet, ym Memorandwm Rhif 3, yn argymell y dylid rhoi cydsyniad. Ymhellach, nodwn y gwneir yr argymhelliad hwn yn sgil gwelliant NC1 a gyflwynwyd ar 7 Mai 2025.

**34.** Rydym yn cydnabod y bydd y darpariaethau yng ngwelliant NC1 yn darparu rôl gydsynio i Weinidogion Cymru pan fernir bod Llywodraeth bresennol y DU neu Lywodraeth y DU yn y dyfodol yn arfer pwerau'r Bil mewn meysydd datganoledig. Fodd bynnag, ni chaiff y Senedd wneud gwaith craffu sylweddol ar reoliadau a wneir drwy ddefnyddio'r pwerau hyn, o ystyried absenoldeb pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru yn y Bil.

**35.** Fel y nodwyd yn ein hadroddiad ar y Memorandwm, mae'r pwerau yn y Bil yn rhai eang. Felly, mae'r ffaith mai dim ond Llywodraeth y DU sy'n cael arfer y pwerau hyn mewn meysydd datganoledig yn parhau i fod yn destun pryder i ni, ac felly rydym yn parhau i fod o'r farn y dylid darparu'r un pwerau i Weinidogion Cymru weithredu mewn meysydd datganoledig â'r rhai sy'n cael eu dirprwyo i Weinidogion Llywodraeth y DU yng nghymal 1 o'r Bil. Yn ein barn ni, felly, nid yw canlyniad y trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn

[37] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 19 Mai 2025, Cofnodion

cynrychioli canlyniad da neu foddhaol, yn enwedig gan y gallai arwain at ansicrwydd cyfansoddiadol yn y dyfodol (gweler yr adran ddiweddarach ar faterion cymhwysedd deddfwriaethol).

**Casgliad 2.** Er bod gwelliant NC1 yn darparu rôl gydsynio i Weinidogion Cymru, nid oes gan Weinidogion Cymru eu pwerau eu hunain yn y Bil i wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig ac, o ganlyniad, ni fydd gan y Senedd oruchwyliaeth o reoliadau a allai fod yn arwyddocaol mewn meysydd datganoledig.

**Casgliad 3.** Mae'n anfoddhaol na fydd y Bil, os caiff ei ddeddfu, yn galluogi Gweinidogion Cymru i arfer y pwerau dirprwyedig perthnasol y mae'n eu cynnwys mewn meysydd datganoledig.

## Cysylltiadau rhynglywodraethol

**36.** Rydym yn cydnabod y byddai'r Ysgrifennydd Cabinet "wedi hoffi i Lywodraeth y DU fynd ymhellach" mewn cysylltiad â gwelliant NC1. Rydym yn rhannu'r farn hon, ac yn siomedig ei bod yn ymddangos mai dim ond cyfleoedd cyfyngedig sydd ar ôl yn hynt y Bil i geisio ei ddiwygio fel y gellir darparu rôl lawnach i Weinidogion Cymru a'r Senedd.

**37.** Yr un mor siomedig, ac yn destun pryder, er bod Llywodraeth Cymru wedi bod mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU am y pwerau yn y Bil ers ei gyflwyno ym mis Medi 2024, yw'r ffaith mai dim ond ar y cam hwyr hwn yn hynt y Bil y mae Llywodraeth Cymru wedi cael consesiwn cyfyngedig gan Lywodraeth y DU ar ffurf gwelliant NC1.

**38.** Yn ysbryd cysylltiadau rhynglywodraethol agored, credwn felly y dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ddarparu rhagor o fanylion am ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU mewn cysylltiad â'r Bil ac y dylai rannu gohebiaeth berthnasol â'r Pwyllgor.

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ddarparu rhagor o fanylion am ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU mewn cysylltiad â'r Bil a dylai rannu gohebiaeth berthnasol â'r Pwyllgor.

**39.** Rydym wedi[38] ceisio gwybodaeth o'r blaen ynghylch i ba raddau y mae'r strwythurau rhynglywodraethol yn y DU yn darparu mecanwaith effeithiol i ddatrys pryderon neu anghydfodau sy'n ymwneud â Biliau sy'n gwneud

[38] Er enghraifft, gweler paragraffau 80 i 83 ac argymhellion 4 a 5 o'n hadroddiad ym mis Hydref 2022 ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Caffael.

darpariaeth mewn meysydd datganoledig. Credwn y dylai'r Ysgrifennydd Cabinet, yn ysbryd bod yn agored, ddarparu rhagor o wybodaeth ynghylch i ba raddau y defnyddiwyd y strwythurau hyn mewn cysylltiad â'r Bil hwn.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet gadarnhau a roddwyd ystyriaeth i godi pryderon Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r Bil ar lefel grwpiau rhyngweinidogol, a hefyd i uwchgyfeirio'r pryderon hyn i'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol.

## Materion cymhwysedd deddfwriaethol

**40.** Yn ein hadroddiad ar y Memorandwm, codwyd y posibilrwydd bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ei deddfwriaeth sylfaenol ei hun i ddiwygio'r Bil, os caiff ei ddeddfu, i'r graddau y mae'n gymwys i feysydd datganoledig. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym y byddai'r dull hwn yn gofyn am "asesiad llawn o gymhwysedd deddfwriaethol", ac – ar y pryd – roedd Llywodraeth Cymru yn hyderus y byddai Llywodraeth y DU yn cyrraedd "canlyniadau cadarnhaol" fel na fyddai angen dull o'r fath.

**41.** O ystyried y ffaith nad yw'r canlyniad a gyrhaeddwyd yn mynd mor bell ag y byddai'r Ysgrifennydd Cabinet "wedi hoffi", credwn ei bod bellach yn briodol bod Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad o gymhwysedd deddfwriaethol i ganfod a ellir cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol yn y Senedd er mwyn diwygio'r Bil, os caiff ei ddeddfu. Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fanteisio ar gyfleoedd sydd ar gael iddi i fynd i'r afael â'i phryderon yn llawn, ac i amddiffyn buddiannau datganoledig yn llawn.

**Argymhelliad 3.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet, o fewn chwe mis, gynnal asesiad llawn o gymhwysedd deddfwriaethol i ganfod a ellir cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i'r Senedd i ddiwygio'r Bil, os caiff ei ddeddfu, i'r graddau y mae'n gymwys i feysydd datganoledig, ac y dylai ddarparu ei asesiad i'r Pwyllgor.

**42.** Nodwn, yn rhinwedd is-adran (5)(b) o welliant NC1, y bydd angen cydsyniad Gweinidogion Cymru pan fydd rheoliadau o dan y Bil yn gwneud darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd pe bai'n cael ei chynnwys mewn Deddf gan y Senedd.

**43.** Fel y datganwyd yn yr un modd mewn cysylltiad â mecanwaith cydsynio yn y Bil Data (Defnydd a Mynediad)[39], pe bai anghytundeb rhwng Llywodraeth Cymru

[39] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad), Mai 2025, casgliad 3

a Llywodraeth y DU ynghylch a yw rheoliadau cymal 1 yn gwneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig – ac a fyddai angen cydsyniad felly – nid yw'n glir i ni sut y byddai anghydfod o'r fath yn cael ei ddatrys. Mae'n bosibl y gellid gofyn i'r llysoedd benderfynu ar y mater; yn hyn o beth, nid ydym yn credu bod y mecanwaith cydsynio yn y Bil yn cyflwyno darpariaeth gyfansoddiadol foddhaol, a byddwn yn ymdrechu i fonitro ei defnydd yn y dyfodol.

**44.** O ystyried yr eglurder cyfyngedig ynghylch sut y bydd y mecanwaith cydsynio yn y Bil yn gweithredu os bydd anghytundeb rhynglywodraethol, credwn y dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi asesiad Llywodraeth Cymru o sut y bydd anghydfodau o'r fath yn cael eu datrys.

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi asesiad Llywodraeth Cymru o sut y gellir datrys anghydfod posibl rhwng llywodraethau'r DU ynghylch a yw rheoliadau cymal 1 yn gwneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig, ac a ellid gofyn i'r llysoedd benderfynu ar fater o'r fath.

**45.** At hynny, nodwn fod is-adran (2) o welliant NC1 yn darparu bod rhaid i Weinidog Llywodraeth y DU gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau cymal 1 mewn meysydd datganoledig, oni bai bod y ddarpariaeth mewn rheoliadau o'r fath yn ddeilliadol neu'n ganlyniadol i ddarpariaeth sydd y tu allan i gymhwysedd datganoledig Cymru. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi'r sail resymegol dros gynnwys eithriad o ran y ddarpariaeth hon.

**46.** Rydym yn pryderu am oblygiadau posibl y ddarpariaeth hon ar gwmpas y meysydd y gellir ceisio cydsyniad ar eu cyfer. Fel rydym yn datgan yn yr un modd uchod, nid yw'n glir i ni sut y gellir datrys anghydfodau ynghylch yr hyn y bernir ei fod yn ddarpariaeth "ddeilliadol" neu "ganlyniadol". Am y rhesymau hyn, credwn y dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi asesiad Llywodraeth Cymru o oblygiadau posibl y ddarpariaeth hon.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi asesiad Llywodraeth Cymru o effaith yr eithriad yn is-adran (2) o welliant NC1, a'i hasesiad o sut y gellir datrys anghydfodau rhynglywodraethol ynghylch yr hyn y bernir ei fod yn ddarpariaeth "ddeilliadol" neu "ganlyniadol".

**Argymhelliad 6.** Wrth ymateb i argymhelliad 5, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o berthnasedd yr ymadrodd 'ddeilliadol neu'n ganlyniadol i ddarpariaeth sydd y tu allan i gymhwysedd datganoledig Cymru' yn is-adran (2) o welliant NC1 ac a oes gan Lywodraeth Cymru bryderon ynglŷn â'i gynnwys.

## Rhyngweithiad y Bil â'r fframweithiau cyffredin

**47.** Yn ein hadroddiad ar y Memorandwm, tynnwyd sylw at bryderon a godwyd am effaith bosibl pwerau eang y Bil ar weithrediad effeithiol y fframweithiau cyffredin. Yn sgil y pryderon hyn, gwnaethom argymell y dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi asesiad Llywodraeth Cymru o ryngweithiad y Bil â'r fframweithiau cyffredin. Gwnaethom hefyd alw ar yr Ysgrifennydd Cabinet i ymrwymo i ddarparu asesiad o'r fath mewn memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol a osodwyd mewn cysylltiad â'r Bil.

**48.** Mewn ymateb i'n hadroddiad, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym y bydd rhyngweithiad y Bil â'r fframweithiau cyffredin yn dibynnu ar ganlyniad trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch pwerau dirprwyedig y Bil. Dywedodd hefyd wrthym fod rhyngweithiad o'r fath hefyd yn dibynnu ar y ffordd yr "honnir bod y pwerau dirprwyedig yn cael eu harfer."

**49.** Fel y datganwyd yn flaenorol, gosodwyd Memorandwm Rhif 3 yn dilyn canlyniad trafodaethau â Llywodraeth y DU mewn cysylltiad â phwerau dirprwyedig y Bil mewn meysydd datganoledig. Fodd bynnag, nid yw Memorandwm Rhif 3 yn darparu asesiad o ryngweithiad y Bil â fframweithiau cyffredin, y byddai eu cynnwys wedi bod yn ddefnyddiol i lywio ein hystyriaeth yn y dyfodol o weithrediad y fframweithiau. Credwn ei bod bellach yn briodol i Lywodraeth Cymru gynnal yr asesiad hwn ac adrodd ar ei ganlyniad i'r Pwyllgor.

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi asesiad Llywodraeth Cymru o ryngweithiad y Bil, fel y'i diwygiwyd, ar fframweithiau polisi cyffredin y DU.

## Materion eraill

**50.** Nodwn fod Memorandwm Rhif 3 yn cyfeirio at y gwelliant sy'n destun y memorandwm hwnnw fel "OPC79". Fel y datganwyd ym Memorandwm Rhif 3, y rhifau cyfeirnod a ddefnyddir "yw'r rhifau cyfeirnod OPC a roddwyd i'r gwelliannau cyn eu cyhoeddi'n ffurfiol".

**51.** Er ein bod yn cydnabod bod Memorandwm Rhif 3 wedi'i gyflwyno'n brydlon ar ôl cyflwyno'r gwelliant perthnasol, ac o fewn dyddiad cau dwy wythnos y Rheolau Sefydlog, credwn nad yw cynnwys cyfeirnodau a ddefnyddir at ddibenion mewnol yn darparu dull hygyrch o nodi pa ddarpariaethau mewn gwelliannau a gyflwynwyd sy'n gofyn cydsyniad y Senedd. Rydym wedi codi ein pryderon o'r blaen ynglŷn â chynnwys cyfeirnodau o'r fath mewn memoranda cydsyniad

deddfwriaethol eraill a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.[40] Yn achos Memorandwm Rhif 3, roedd yn amlwg bod gwelliant NC1 yn cyfateb i OPC79 yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd; fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn wir gyda'r holl femoranda. Felly, hoffem achub ar y cyfle hwn i ofyn bod memoranda a osodir o dan Reol Sefydlog 29 yn cyfeirio'n glir at welliannau fel y'u cyhoeddir.

**52.** Er ein bod yn cydnabod efallai na fydd yn ymarferol datgelu'r holl wybodaeth berthnasol, mae'n siomedig na ddefnyddiodd yr Ysgrifennydd Cabinet y cyfle a ddarparwyd gan Femorandwm Rhif 2 i roi diweddariad llawnach o drafodaethau Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU cyn ei osod neu ganlyniad trafodaethau Llywodraeth Cymru â'r llywodraethau cyfatebol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon ynghylch yr "opsiynau deddfwriaethol posibl a allai fynd i'r afael â phryderon y cenhedloedd datganoledig".

**53.** Yn ogystal, nid oedd gan y Pwyllgor lawer o amser i ystyried y materion ym Memorandwm Rhif 3, sy'n gyfansoddiadol arwyddocaol o ran y setliad datganoli; mae hyn yn anfoddhaol.

[40] Gweler paragraffau 105 a 106 a chasgliad 11 o'n hadroddiad ym mis Mai 2024 ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, a pharagraffau 12 a 13 o'n hadroddiad ym mis Mai 2025 ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad).